



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Fforddiadwyedd Rhenti yng Nghymru

### Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith am dâl ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Ffocws y prosiect yw adolygu fforddiadwyedd rhenti yng Nghymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i amrywiaeth o ganlyniadau ymchwil a'u datblygu, a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei phroses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i ddefnyddio sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar ei sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi ei wybodaeth am ymchwil y tu hwnt i faes academiaidd.

### Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

### Yr interniaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy, gan gydnabod rôl gwahanol ddeiliadaethau tai a chymysgedd o gynnyrch tai i ddiwallu anghenion a dyheadau o ran tai. Mae gwaith polisi yn y maes hwn felly'n cynnwys yr ymgynghoriad cyfredol ar y Papur Gwyn ar Dai Digonol, Rhenti Teg a Fforddiadwyedd, yn ogystal â datblygu polisi rhent cymdeithasol i Gymru yn y dyfodol. Yn sylfaenol i'r ffyrddau gwaith polisi hyn mae dealltwriaeth glir o fforddiadwyedd aelwydydd, a thystiolaeth sy'n ei ategu i benderfynu beth yw rhent fforddiadwy heddiw. Bydd yr interniaeth hon yn cynnal ymchwil i lywio sut y penderfynir ar renti cymdeithasol yng Nghymru a bydd yn helpu i lywio'r drafodaeth bolisi ehangach ar fforddiadwyedd tai. Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau

cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## **Y prosiect**

### **Fforddiadwyedd Rhenti**

*Y cefndir*

Yn gyffredinol, caiff fforddiadwyedd tai ei gysyniadu o ran y gymhareb incwm neu enillion cartref i gostau (prynu) neu rentu eiddo. Gellir dod o hyd i feini prawf fforddiadwyedd manwl pellach yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar [Gynnal Aseidiadau o'r Farchnad Dai Leol](#) a [Nodyn Cyngor Technegol Polisi Cynllunio 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy](#). Bydd yr ymchwil hwn yn adolygu diffiniad a meini prawf fforddiadwyedd tai Llywodraeth Cymru i asesu ei berthnasedd wrth symud ymlaen, a bydd yn llywio'r dull o asesu fforddiadwyedd yn y sector rhentu cymdeithasol. Gan ddefnyddio data eilaidd, bydd yr intern yn adolygu a yw'r diffiniad hwn yn parhau i fod yn berthnasol heddiw. Os yw'n bosibl, dylai hyn ystyried effaith digwyddiadau diweddar, fel Covid a'r argyfwng costau byw, gan edrych ar faint mae costau eraill aelwydydd (bwyd, cyfleustodau ac ati) wedi codi.

Bydd yr intern yn gyfrifol am fapio newidiadau dros amser mewn fforddiadwyedd rhenti yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi data presennol gan ystyried data incwm ac enillion; cyfraddau lwfans tai lleol; rhenti'r farchnad; a nawdd cymdeithasol (e.e. budd-dal tai / yr elfen tai o gredyd cynhwysol), i ddod i gasgliadau ar ddull o fesur fforddiadwyedd yn y sector rhentu cymdeithasol a'r sector rhentu preifat yng Nghymru. Dylai hyn hefyd gynnwys dadgyfuno yn ôl rhanbarth yng Nghymru i nodi'r gwahaniaethau rhanbarthol mewn fforddiadwyedd. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio setiau data Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill fel data'r OECD.

*Canlyniadau disgwylidig y prosiect:*

Hoffai Llywodraeth Cymru gael cyflwyniad i'r timau polisi ac ymchwil ar ganfyddiadau'r ymchwil hwn, yn ogystal ag adroddiad ymchwil.

Drwy'r interniaeth hon, bydd yr intern yn meithrin dealltwriaeth dda o'r dystiolaeth a ddefnyddir yn Llywodraeth Cymru i lywio polisi, yn ogystal â chipolwg ar sut mae

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis, gyda'r opsiwn o estyniad, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y sefydliad cartref yn rhewi prosiect PhD y myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei dalu'r hyn sy'n cyfateb i'w dâl (stipend) yn ystod ei interniaeth. Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gellir trefnu amser ar gyfer ymrwymadau PhD drwy drafod gyda'r rheolwyr llinell, e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau cynhadledd. Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o [x] mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

## Manyleb myfyriwr

Rhaid bod gan y myfyriwr:

- Profiad o ddadansoddi atchweliad
- Profiad o lanhau a thrin data
- Sgiliau llunio adroddiadau rhagorol
- Y gallu i gyfleu syniadau cymhleth i gynulleidfa
- Profiad o gynhyrchu graffiau a siartiau ar gyfer cyflwyniadau

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Mis Mai 2025 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau DTP Cymru. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes

gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn DTP Cymru ar:  
[enquiries@wgsss.ac.uk](mailto:enquiries@wgsss.ac.uk)

## **Diogelwch**

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## **Ymholiadau**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio I Becca McEwan (Becca.mcewan@gov.wales)